## Cenadwri y Groes Ddoe a Heddiw

**Darllen Rhufeiniaid 1:1-4; Philipiaid 2:5-11**

Gellir dweud ar sail yr Efengylau a'r Epistolau mai'r Groes yw'r symbol o fuddugoliaeth derfynol Duw dros holl bwerau dinistriol y byd, pechod a dinistr, gwae a gofid. Yr Atgyfodiad yw'r datganiad syfrdanol, cyffrous a chwyldroadol fod Duw yn ei Fab wedi adfer yr hyn a gollwyd trwy esgeulustod y ddynoliaeth a phechod gwreiddiol teulu Dyn. Ond gwyddom nad yw hi'n hawdd cofleidio'r newyddion da am groes wag a bedd gwag, ond dyna gnewyllyn y neges. Gan fod y neges mor rymus, bu gwrthwynebiad parhaus iddi am fod y gwirionedd yn rhoi ergyd i'r balchder hunanol sydd ynom oll – y 'fi fawr' bwysig sy'n meddiannu gwleidyddion a gweinidogion y Goron ac aml un sy'n cyhoeddi'r Cadw sydd yng Nghrist. Onid oedd cenadwri'r Groes yn tanseilio hygrededd yr Ymerawdwr ei hun? Onid oedd Cesar yr Ymerawdwr wedi ei ddyrchafu ei hun i statws dwyfol, gan fynnu nad oedd neb i'w gymharu ag ef? Onid Cesar oedd yr Arglwydd?

Ond buan iawn y clywodd ef a'i filwyr fod yna neges arall wedi ei seinio mewn rhan bellennig o'r Ymerodraeth. Daeth canlynwyr y Crist hwn, gorchfygwr angau'r Groes, â chenadwri bendant i ganol yr Ymerodraeth, i Rufain ei hun. Iesu Grist oedd yr Arglwydd ac nid Cesar. Yr oedd rheidrwydd ar Cesar, pe bai'n sylweddoli hynny, i blygu glin i'r Arglwydd Iesu hwn. Dyna neges heriol i'r Ymerawdwr ac i drigolion pob gwlad, ddoe a heddiw.

Ynddo ef y mae dynoliaeth newydd, safonau syfrdanol; ynddo ef ceir corff newydd, a seiliwyd gan ddioddefaint a grym dwyfol. Ei eglwys ef fydd yn gydwybod i bobl, ac yn dysgu iddynt y grefft o fyw yn deilwng ar wyneb y ddaear. Ac y mae ei Deyrnas ef i'w gweld hyd derfynau eithaf y ddaear. Ni fydd terfyn ar Iesu na'i neges. Talodd Iesu'r gost eithaf am ein methiant a bu farw er mwyn i bob un ohonom gael bywyd tragwyddol. Dyna genadwri gwerth ei chlywed.

***D. Ben Rees***